| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Mawrth 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Teitl:** | **Cynllun Archwilio 2016 - Cyngor Sir Ddinbych** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae adroddiad o'r enw 'Cynllun Archwilio 2016 - Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac mae’n atodedig. Mae’r adroddiad yn egluro’r rhaglen waith sydd wedi ei chynllunio ar gyfer dwy raglen archwilio perfformiad ac archwilio ariannol SAC. Mae’r adroddiad hefyd yn nodi materion fel y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o safbwynt y tîm archwilio a’r amserlen ar gyfer y gwaith.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae'n ofynnol i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno’r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae adroddiad SAC yn rhoi i’r Cyngor amlinell o raglen waith yr archwiliad ariannol a’r archwiliad o berfformiad. Mae’r rhaglen archwilio ariannol yn ymwneud â’u gwaith o safbwynt datganiadau ariannol 2015-16. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi’u nodi yn ystod y broses gynllunio gychwynnol a'r camau bwriedig i fynd i'r afael â nhw. Bydd y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael eu defnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Mae’r rhaglen waith archwiliad o berfformiad yn ymwneud â’u gwaith o safbwynt y Mesur Llywodraeth Leol. Mae gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gwasanaeth archwilio yn ddarpariaeth statudol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel y'i diwygiwyd gan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig hefyd fod yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae’r ffioedd am y gwaith a wneir gan SAC o safbwynt y rhaglen waith archwilio ariannol a pherfformiad wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid yw’n berthnasol i argymhellion yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Asedau ac uwch aelodau o'r Adran Gyllid.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i’r awdurdod.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael neu leihau risg neu effaith.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.